## DOGFEN YMGYNGHORI




## Cynnig i Aildrefnu Darpariaeth Arbenigol Canolfan Enfys

## Ad-drefnu Canolfan Enfys i osod y ddarpariaeth dan reolaeth Ysgol Pen Coch a chynyddu'r capasiti enwol o 98 i 128 o 1 Mawrth 2025 ymlaen.




**Cyfnod ymgynghori:**

**5 Mehefin i 16 Gorffennaf 2024**

**Ymgynghoriad i Aildrefnu Darpariaeth Arbenigol Canolfan Enfys**

**Ad-drefnu Canolfan Enfys i osod y ddarpariaeth dan reolaeth Ysgol Pen Coch o 1 Mawrth 2025 ymlaen.**


| **A. TROSOLWG** | **Tudalen Rhif** |
|---|---|
| A1. Cyflwyniad | 4 |
| A2. Trosolwg o’r cynnig | 4 |
| A3. Gofynion ymgynghori | 4 |
| A4. Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori? | 5 |
| A5. Sut i ymateb i’r ymgynghoriad | 7 |
| A6. Manylion cyswllt | 7 |
| A7. Beth fydd yn digwydd nesaf? | 8 |

| **RHAN B - YR ACHOS DROS NEWID** | **Rhif Tudalen** |
|---|---|
| B1. Cefndir y cynnig | 9 |
| B2. Y Sefyllfa Bresennol | 9 |
| B3. Lleoliad Canolfan Enfys ac Ysgol Pen Coch | 11 |
| B4. Ansawdd y ddarpariaeth addysg | 11 |

| **RHAN C - Y CYNNIG** | **Rhif Tudalen** |
|---|---|
| C1. Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu? | 14 |
| C2. Pryd fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith? | 14 |
| C3. Cost y cynnig | 14 |
| C4. Dewisiadau a ystyriwyd | 14 |

| **RHAN D - EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG** | Rhif Tudalen |
|---|---|
| D1. Effaith ar yr Amgylchedd Lleol | 16 |
| D2. Effaith ar Dderbyniadau | 16 |
| D3. Effaith ar Gludiant o’r Cartref i'r Ysgol | 16 |
| D4. Effaith ar drosglwyddo i’r Ysgol Uwchradd | 16 |
| D5. Effaith ar Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | 16 |
| D6. Effaith ar Drefniadau Llywodraethu | 16 |
| D7. Effaith ar Staffio | 16 |

| **RHAN D - EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG** | **Rhif Tudalen** |
|---|---|

D8. Effaith ar Ysgolion Eraill 17

D9. Risgiau'r Prosiect 17

D10. Asesiad o Effaith Integredig 17

D11. Effaith y Ddarpariaeth Gymraeg 17

D12. Effaith adeiladu 17

D13: Trefniadau Dros Dro 17

**RHAN E - FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD** **Rhif Tudalen**

E1. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad 18

E2. Gwybodaeth Monitro Cydraddoldeb 20

Cyhoeddir y ddogfen hon ar ffurf copi caled, os oes angen copi papur o'r ddogfen hon arnoch, neu gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol er enghraifft braille neu brint bras, neu gymorth gyda dehongli mewn iaith wahanol, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704014 / 01352 704015, neu e-bostiwch 21stCenturySchools@flintshire.gov.uk.

# Cynnig i Aildrefnu Darpariaeth Arbenigol Canolfan Enfys

## Ad-drefnu Canolfan Enfys i osod y ddarpariaeth dan reolaeth Ysgol Pen Coch a chynyddu'r capasiti enwol o 98 i 128 o 1 Mawrth 2025 ymlaen.

## A. TROSOLWG

### A1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gyfle i ymgyngoreion a phartïon eraill â diddordeb i ddysgu am y newidiadau yr ydym yn eu cynnig ar gyfer trefniadau darpariaeth arbenigol Canolfan Enfys ac Ysgol Pen Coch.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldebau Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor), dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, i ymgynghori gyda budd-ddeiliaid priodol wrth ystyried gwneud unrhyw ad-drefniant sylweddol i ysgol.

Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i ofyn cwestiynau, gwneud sylwadau a rhannu eich safbwyntiau ar y cynigion sy'n cael eu cyflwyno. Bydd eich mewnbwn i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ystyried yn ofalus wrth i'r Cyngor benderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

### A2. Trosolwg o'r Cynnig

Hoffai'r Cyngor glywed eich barn am gynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Enfys a symud y ddarpariaeth o reolaeth bresennol Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion) i reolaeth Ysgol Pen Coch. Bydd y cynnig yn arwain at gynyddu'r capasiti enwol yn Ysgol Pen Coch o 98 i 128 erbyn mis Mawrth 2025.

Byddai'r cynnydd yn y capasiti enwol yn cael ei gyflawni drwy Ysgol Pen Coch yn cymryd rheolaeth o Ganolfan Enfys yn ei lleoliad presennol ar yr un safle ag Ysgol Bryn Gwalia yn Yr Wyddgrug.

### A3. Gofynion Ymgynghori

Dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mae'n gyfrifoldeb ar y Cyngor i ymgynghori gyda budd-ddeiliaid priodol wrth ystyried gwneud unrhyw ad-drefniant sylweddol i ysgol.

Mae fel arfer angen gweithdrefnau statudol i wneud newidiadau sylweddol i ysgolion. Mae'r gweithdrefnau wedi'u llunio i alluogi newidiadau lle bo'r rheiny'n angenrheidiol, a hynny mewn ffordd sy'n diogelu budd dysgwyr ac sy'n caniatáu i bartïon sydd â diddordeb i ddweud eu dweud yn ystod y broses.

Gan ddilyn canllawiau rheoleiddio'r Cod, mae'r Cyngor yn dymuno ymgynghori gyda budd-ddeiliaid sydd â diddordeb ynghylch newid a reoleiddir i Ganolfan Enfys, ble cynigir aildrefnu sut mae'r ddarpariaeth yn cael ei rheoli.

Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn para 42 diwrnod, gydag o leiaf 20 o'r rheiny yn ddiwrnodau ysgol. Bydd cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar yr hyn sy'n cael ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu gweithredu'r cynnig neu beidio.

Mae barn plant a phobl ifanc yn bwysig iawn i'r Cyngor ac felly bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at y broses ymgynghori. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu fersiwn gryno o'r ddogfen hon a fydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig hwn.

## A4. Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn digwydd rhwng **dydd Mercher, 5 Mehefin 2024** a **dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2024.** Mae'n rhaid cynnal yr ymgynghoriad hwn am o leiaf 42 diwrnod, gydag o leiaf 20 o'r rheiny yn ddiwrnodau ysgol.

Mae'r ddogfen ymgynghori ffurfiol hon wedi cael ei hanfon at amrywiaeth eang o ymgyngoreion gan gynnwys:

| Gofyniad o dan God Sefydliadol 011/2018 | Bydd yn cael ei dosbarthu i |
|---|---|
| Gymuned yr ysgol | Y Pennaeth, athrawon a staff Ysgol Pen Coch.<br><br>Athrawon a staff yng Nghanolfan Enfys.<br><br>Disgyblion yn Ysgol Pen Coch a Chanolfan Enfys.<br><br>Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid (a lle bo'n bosibl darpar rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid) disgyblion sy'n mynychu Ysgol Pen Coch a Chanolfan Enfys.<br><br>Y Pennaeth, athrawon, staff Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion) |
| awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion; | Cyngor Sir y Fflint sy'n cyflwyno'r cynnig |
| unrhyw awdurdod lleol arall sy'n debygol o gael ei effeithio – gan gynnwys yn achos darpariaeth Angen Addysgol Arbennig (AAA)/Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) penodol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli disgyblion â datganiad ynddo; | |
| Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio wedi'i lleoli; | |
| unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac ysgolion eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion, gan gynnwys rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion wedi'u dadleoli. | Corff Llywodraethol Ysgol Pen Coch<br>Pwyllgor Rheoli Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion). |
| Corff Llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o gael effaith arnynt. | Corff Llywodraethu Maes Hyfryd |
| Gweinidogion Cymru. | |

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad (AC) ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion. | Rob Roberts<br>Hannah Blyddyn |
| Estyn. | Prif Arolygydd<br>Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Undebau Athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli'r athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion hyn. | Cynrychiolwyr NASUWT; NEU; UCAC; ASCL; UNSAIN |
| Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol. | Ymgynghorydd GwE Plas Derwen/Pen Coch |
| Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol. | |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion. | Comisiynydd yr Heddlu ar gyfer Gogledd Cymru |
| Unrhyw gyngor tref neu gymuned ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion. | Cyngor Tref y Fflint<br>Cyngor Tref yr Wyddgrug |
| Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol). | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol a allai gael eu heffeithio; | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth meithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle maen nhw'n bresennol. | Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>PACEY |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Angen Addysgol Arbennig/Angen Dysgu Ychwanegol, unrhyw gorff iechyd neu trydydd sector perthnasol sydd â diddordeb. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol. | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno. | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg. | |
| Arall | Holl Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint |

Mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint ac ar gael drwy ddilyn y ddolen isod:

http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx

## A5. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae eich barn ar y cynnig i ad-drefnu Canolfan Enfys dan reolaeth Ysgol Pen Coch a chynyddu'r capasiti enwol o 98 i 128 yn bwysig i ni. Mae ar y Cyngor eisiau i chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a dweud wrthym ni beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig, yn enwedig os yw'n mynd i effeithio arnoch chi neu'ch plant.

Mae'r Cyngor erbyn hyn yn cynnal prosesau ymgynghori statudol gyda'r holl bartïon sydd â diddordeb i wneud yn siŵr bod unrhyw benderfyniad a wneir ganddo yn un ar sail gwybodaeth.

Dyma amserlen yr ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion statudol hyn:

| Dechrau'r cyfnod ymgynghori statudol | Cyfnod Ymgynghori Statudol yn Dod i Ben | Cyfnod ymgynghori |
|---|---|---|
| 5 Mehefin 2024 | 16 Gorffennaf 2024 | 42 diwrnod<br>(20 diwrnod yn ddiwrnod ysgol) |

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi holiadur ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan neu trwy ddilyn y ddolen hon.

Dilynwch y ddolen hon https://www.smartsurvey.co.uk/s/canolfanpencoch/

Dilynwch y Cod QR hwn

Mae copi papur o'r holiadur hefyd ar gael yng nghefn y ddogfen hon. Fel arall gallwch ymateb yn ysgrifenedig yn defnyddio'r manylion cyswllt ar y dudalen nesaf.

Mae'n rhaid derbyn holl ymatebion erbyn hanner nos ar **ddydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2024.**

Nid yw'r Cyngor yn bwriadu cynnal unrhyw ddigwyddiadau galw heibio yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, gellir anfon unrhyw gwestiynau trwy e-bost at 21stCenturySchools@flintshire.gov.uk, a bydd Swyddogion y Cyngor yn darparu ymateb cyn pen 7 diwrnod.

## A6. Manylion cyswllt

Dylid anfon bob ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

Tîm Moderneiddio Ysgolion
Cyngor Sir y Fflint
Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant
Ewlo
Sir y Fflint
CH5 3XT

E-bost:  21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 704014 neu 01352 704015

Bydd blwch postio hefyd ar gael yn nerbynfa Ysgol Pen Coch, Plas Derwen a Chanolfan Enfys i bostio'ch ymatebion.

## A7. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn llunio adroddiad ymgynghori a fydd yn amlinellu'r adborth a dderbyniwyd.   Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt yn dymuno bwrw ymlaen â'r dewis a ffefrir yn y ddogfen ymgynghori.   Disgwylir y bydd y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig neu beidio yn cael ei wneud erbyn diwedd 2024.

Os yw rhan gyntaf y broses yn cael ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi, a bydd gan bobl 28 diwrnod i wrthwynebu. Bydd y Cabinet wedyn yn ystyried adroddiad arall yn crynhoi unrhyw wrthwynebiad ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig neu beidio.

Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer penderfynu yn dilyn y broses ymgynghori ffurfiol, sef:

| Camau'r broses | Dyddiadau Allweddol |
|---|---|
| Mae'r Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid symud ymlaen â'r cynigion | Medi 2024 |
| Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol ac yn cychwyn cyfnod gwrthwynebu | Hydref 2024 |
| Mae'r Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu ac yn penderfynu p'un a ddylid gweithredu'r cynigion ai peidio | Rhagfyr 2024 |
| Bydd llythyr hysbysiad o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gyda chanlyniad penderfyniad y Cabinet | Ionawr 2025 |

* efallai bydd y dyddiadau hyn yn amodol ar newid gan ddibynnu ar gymeradwyaeth y cabinet.

## RHAN B - YR ACHOS DROS NEWID

### B1. Cefndir y Cynnig

Mae Canolfan Enfys yn ganolfan asesu a darpariaeth cyfnod sylfaen ac mae wedi'i lleoli ar gampws a rennir gydag Ysgol Gynradd Gymunedol Bryn Gwalia yn Yr Wyddgrug. Ers 2015, mae Canolfan Enfys wedi'i strwythuro fel rhan o bortffolio Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion), gan ei osod dan reolaeth y Pennaeth.  Mae gan Ganolfan Enfys ddwy swyddogaeth i ddarparu darpariaeth cyfnod sylfaen i blant ag anghenion cymhleth ac asesu a phennu'r ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer y plant sy'n mynychu.

Bu i arolygiad Estyn o Blas Derwen ym mis Hydref 2023 benderfynu bod angen gwella Canolfan Enfys ac nad oedd yr arbenigedd i gefnogi'r gwasanaeth yn dod o fewn Plas Derwen o ystyried natur wahanol iawn y ddarpariaeth a gynhigir ac anghenion cymhleth y plant sy'n mynychu Canolfan Enfys.   Cynghorwyd yr Awdurdod i'w symud o fod dan reolaeth Plas Derwen a sicrhau rheolaeth addas trwy fecanwaith arall.


Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni'r gwelliannau gofynnol drwy:

- ❖ Ddod a'r ganolfan dan reolaeth Ysgol Pen Coch i ddefnyddio arbenigedd staff yma i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y sawl sy'n mynychu Canolfan Enfys.

### B2. Y Sefyllfa Bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad y Ddarpariaeth** | | Canolfan Enfys, Clayton Road, Yr Wyddgrug, CH7 1SU | Ysgol Pen Coch, Rhodfa Tywysog Cymru, Y Fflint CH6 5DL |
| **Oedran** | | 3-7 | 3-11 |
| **Categori** | | Darpariaeth Arbenigol Dysgu Cyfnod Sylfaen | Darpariaeth Arbenigol Ysgol Gynradd |
| **Categori Cyfrwng Iaith** | | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Saesneg |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr ym mis Medi 2023** | | 24 | 99 |
| **Nifer y disgyblion ar gofrestr y ganolfan** | **Medi 2022** | 26 | 101 |
| | **Medi 2021** | 20 | 101 |
| | **Medi 2020** | 18 | 93 |
| | **Medi 2019** | 19 | 99 |
| **Capasiti Enwebu** | | 24 | 98 |
| **Lleoedd gwag** | | 0 | 0 |
| **Categorïau Cyflwr Adeilad Canolfan Enfys/Ysgol Pen Coch** | | B | |

## B3. Map Lleoliad Canolfan Enfys




Mae Canolfan Enfys wedi'i lleoli yn nhref Yr Wyddgrug ac mae ar yr un safle ag Ysgol Bryn Gwalia ar hyn o bryd. Mae Ysgol Pen Coch yn Y Fflint ac yn rhannu safle gydag Ysgol Gwynedd ar hyn o bryd. Ni effeithir ar yr un o'r ysgolion gan y cynigion hyn.

## B4. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg

Mae Estyn a'r Cyngor yn monitro safonau ac ansawdd yr addysg yn ysgolion Sir y Fflint. Estyn yw swyddfa Prif Arolygwr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrff y Goron sydd wedi'i sefydlu dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol o'r Senedd ond yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i effaith bosibl y cynnig ar ansawdd a safonau yng Nghanolfan Enfys isod, ac maent yn cyd-fynd â fframwaith arolygu diweddaraf Estyn ac wedi'u hadolygu yn erbyn y cynnig isod:

***Dysgu***

*‘Yn gyffredinol, mae’r anghenion dysgu ychwanegol a gallu disgyblion ar draws yr Uned Cyfeirio Disgyblion (gan gynnwys Canolfan Enfys) yn amrywio’n sylweddol. Mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol o’u mannau dechrau cychwynnol. Maent yn gwrando’n addas ar staff a’u cyfoedion ac yn fodlon cyfrannu at weithgareddau dysgu. Mae ambell ddisgybl iau gydag anghenion dysgu mwy cymhleth yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu yn addas ac yn unol â’u gallu. Er enghraifft, maent yn defnyddio symbolau i ddewis byrbrydau a diodydd amser egwyl. Fodd bynnag, nid yw pob disgybl yn datblygu sgiliau cyfathrebu angenrheidiol gydag arwyddion, er enghraifft, ac o ganlyniad nid ydynt yn gwneud cynnydd digon da.*

*Pan roddir y cyfle iddynt, mae disgyblion yn defnyddio eu sgiliau rhifedd yn addas mewn ystod o gyd-destun dilys. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion ar draws yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn gwneud cynnydd digon da i ddatblygu ei sgiliau rhifedd.*

*Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu datblygiad sgil technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Er enghraifft, gyda chefnogaeth briodol, mae disgyblion iau gydag anghenion mwy cymhleth yn mwynhau defnyddio robotiaid llawr wedi eu rhaglennu i ddatrys 5 o bosau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu sgiliau TGCh yn raddol i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.*

*Mae disgyblion iau gydag anghenion dysgu mwy cymhleth yn datblygu eu sgiliau echddygol manwl yn addas. Er enghraifft, maent yn ymarfer edafu a chodi gwrthrychau gyda phlycwyr mawr.’*

Bydd dod â Chanolfan Enfys dan reolaeth Ysgol Pen Coch yn golygu bod staff a’u harbenigedd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau darpariaeth well i ddysgwyr. Bydd hyn yn caniatáu i blant sy’n mynychu’r ddarpariaeth i dderbyn cefnogaeth wedi’i theilwra i wella eu sgiliau cyfathrebu, rhifedd a TGCh.

***Lles ac Agweddau at Ddysgu***

*‘Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae bron pob disgybl yn gwybod pwy i droi atynt os ydynt yn bryderus, gofidus neu’n poeni ac yn hyderus y bydd staff yn delio’n briodol gyda’u pryderon.*

*Mae ambell ddisgybl yng Nghanolfan Enfys yn croesawu ymwelwyr gyda chyfarchion sylfaenol ac yn hapus i barhau eu gweithgareddau pan fydd ymwelwyr yn bresennol.*

*Mae disgyblion iau gydag anghenion mwy cymhleth yng Nghanolfan Enfys yn eistedd yn briodol mewn grwpiau bach amser darllen.’*

Bydd cynnwys Canolfan Enfys o dan reolaeth Ysgol Pen Coch yn cynnal amgylchedd dysgu diogel a chadarnhaol yn y ddarpariaeth.

***Profiadau addysgu a dysgu***

‘*Mae staff yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol a gofalgar gyda disgyblion ac maent yn fodelau rôl cadarnhaol i ddisgyblion. Mae staff cefnogi yn darparu rôl werthfawr i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Mae bron holl staff yn dangos disgwyliadau uchel disgyblion mewn perthynas â’u hymddygiad ac yn defnyddio canmoliaeth i ymgysylltu a chymell disgyblion.*

*Ar draws yr Uned Cyfeirio Disgyblion, mae systemau asesu yn y camau cynnar iawn o ddatblygiad. Mae gan athrawon wybodaeth sylfaenol gyfyngedig ar ddisgyblion ac mae systemau tracio mewnol yn cael eu datblygu. Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn y camau cynnar o gynhyrchu cynlluniau addysg unigol (CAU) ar gyfer holl ddisgyblion. O ganlyniad, nid yw gosod targed ar gyfer unigolion, yn seiliedig ar eu hanghenion wedi'i ddatblygu'n ddigonol.*

*Nid yw'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys digonol i adeiladu'n systemataidd ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion. Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn y camau cynnar o baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae wedi dechrau gweithio yn ddiweddar gydag ysgolion ac asiantaethau eraill i sicrhau bod y cwricwlwm yn fwy addas ac yn cyfateb yn well i anghenion disgyblion. Er enghraifft, mae Canolfan Enfys wedi sefydlu cysylltiadau gydag ysgol arbennig leol i ddarparu cyngor a hyfforddiant i staff. Mae'n rhy fuan i werthuso effaith y cysylltiadau hyn ar gynllunio a darparu'r cwricwlwm o fewn Canolfan Enfys.*

*Ar draws yr Uned Cyfeirio Disgyblion, nid oes yna ddigon o gyfleoedd wedi eu cynllunio i ddisgyblion ddatblygu ei sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. Nid yw datblygiad sgiliau disgyblion ar draws yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn adeiladu ar eu profiad blaenorol yn ddigon da'.*

Bydd dod â Chanolfan Enfys dan reolaeth Ysgol Pen Coch yn golygu bod staff a'u harbenigedd o'r ysgol arbennig yn cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad y cwricwlwm. Yn ogystal, bydd arbenigedd staff yn cefnogi datblygiad systemau asesu effeithiol tra'n sicrhau bod cynlluniau cadarn wedi eu personoleiddio ar waith i fodloni anghenion holl ddysgwyr.

***Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad***

*Mae Uned Cyfeirio Disgyblion Sir y Fflint yn ddarpariaeth groesawgar a thawel. Mae athrawon a chymhorthwyr cefnogi dysgu yn adnabod y disgyblion yn dda a dros amser yn datblygu perthnasoedd gwaith hynod effeithiol gyda nhw.*

*Nid yw systemau i olrhain a monitro cynnydd disgyblion dros amser yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion wedi eu datblygu. Nid yw*'r *Uned Cyfeirio Disgyblion yn derbyn gwybodaeth fanwl yn gyson ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dysgu blaenorol a lles pan fyddant yn cael eu lleoli yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion.*

*Mae arweinwyr a staff wedi sefydlu ethos ble mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu clywed. Mae prosesau ar gyfer adrodd ar bryderon yn cael eu deall yn glir gan holl staff.'*

Bydd dod â Chanolfan Enfys o dan reolaeth Ysgol Pen Coch yn golygu y bydd staff ac arbenigedd o'r ysgol arbennig yn cefnogi datblygiad systemau effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion tra'n cynnal y natur dawel a chroesawus.

***Arweinyddiaeth a rheoli***

*'Mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth wedi creu ethos a gweledigaeth glir ar gyfer yr Uned Cyfeirio Disgyblion, sy'n cael ei gyfleu'n dda i'r holl staff. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn dangos ymrwymiad cryf ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel i sicrhau gwelliannau ar draws yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae'r disgwyliadau uchel hyn yn cael eu rhannu gan holl staff.*

*Mae'r ddarpariaeth Canolfan Enfys yn darparu addysg i holl ddisgyblion tair i saith oed. Mae gan y disgyblion hyn ystod o anghenion hynod gymhleth ac maent wedi bod ar gofrestr yr Uned Cyfeirio Disgyblion ers chwe blynedd. Mae yna bryderon mawr am briodoldeb y ddarpariaeth hon yn rhan o'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae'r pennaeth wedi codi hyn gyda'r awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i'r pryderon hyn yn briodol.'*

Bydd dod â Chanolfan Enfys o dan reolaeth Ysgol Pen Coch yn golygu y bydd y ddarpariaeth yn fwy priodol ac yn derbyn arweinyddiaeth a rheolaeth arbenigol.

## RHAN C - Y CYNNIG

**C1: Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?**

Bydd y cynnig yn cael ei hwyluso gan Dîm Dysgu Ychwanegol y Cyngor ac yn cynnig darpariaeth well i ddysgwyr yng Nghanolfan Enfys i fodloni eu hanghenion unigol yn well. Yn ogystal, bydd staff yn cael eu cefnogi yn well i ddarparu cwricwlwm effeithiol, gan alluogi plant yn yr ysgol i wneud cynnydd yn gynt o'u llinell sylfaen annibynnol eu hunain.

**C2: Pryd fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith?**

Bydd trosglwyddo Canolfan Enfys o reolaeth Plas Derwen i reolaeth Ysgol Pen Coch yn digwydd o fis Mawrth 2025. Bydd capasiti enwol Ysgol Pen Coch yn cynyddu o 98 i 128 ar y pwynt hwn.

**C3: Cost y cynnig**

Ni fydd yr addasiad hwn wedi'i reoleiddio angen unrhyw wariant cyfalaf gan Gyngor Sir y Fflint.

Nid oes unrhyw gostau refeniw a ragwelir o'r addasiad hwn wedi'i reoleiddio.

**C4: Dewisiadau a ystyriwyd**

| Dewis | Disgrifiad | Cryfderau | Gwendidau | Casgliadau |
|---|---|---|---|---|
| **Dewis 1** | Y sefyllfa bresennol - mae Canolfan Enfys yn parhau o dan reolaeth Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion) | - mae strwythurau gwaith a pherthynas gydag uwch reolwyr eisoes wedi sefydlu. | - byddai Canolfan Enfys yn parhau i gael ei chynnwys o fewn darpariaeth a nodwyd yn amhriodol ar gyfer bodloni anghenion y disgyblion. | Ni fyddai'r dewis hwn yn mabwysiadu'r argymhellion gan Estyn yn ogystal â'r pryderon a godwyd gan y Pennaeth presennol ym Mhlas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion). |
| **Dewis 2** | Ailgofrestru'r ddarpariaeth o dan reolaeth Ysgol Pen Coch. | - Mae'r rhan fwyaf o'r plant yng Nghanolfan Enfys eisoes yn trosglwyddo i Ysgol Pen Coch. | - Pellter y ddarpariaeth o'r prif safle yn Ysgol Pen Coch. | Byddai'r dewis hwn yn caniatáu i'r arbenigedd yn Ysgol Pen Coch i wella ansawdd y ddarpariaeth yng Nghanolfan Enfys drwy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | - Gall y Ganolfan ddefnyddio'r arbenigedd yn Ysgol Pen Coch yn ffurfiol.<br>- Byddai'r trosglwyddiad yn eithaf llyfn gan fod trefniadau gwaith anffurfiol eisoes ar waith. | | reolaeth a chefnogaeth arbenigol. |
| **Dewis 3** | Cofrestru gydag ysgol gynradd prif ffrwd lleol. | - Mae'n bosibl y bydd gofyniad buddsoddi y lleiaf posibl.<br>- cysylltiadau wedi eu cynnal i ysgol brif ffrwd.<br>- Gallu creu mwy o le ar gael, yn dibynnu ar allu'r ysgol. | - Arbenigedd/gallu arweinyddiaeth ddim yn addas neu'n ddigon i gefnogi dysgwyr o bosibl.<br>- Gall plant ei chael hi'n anodd rheoli'r lefel o newid. | Mae'r dewis hwn angen ysgol gynradd prif ffrwd i gael yr arbenigedd a'r gallu i gymryd Canolfan Enfys ymlaen ac nid oes yna unrhyw ysgolion yn gallu cwrdd â hyn ar hyn o bryd o fewn yr awdurdod. |
| **Dewis 4** | Cofrestru fel darpariaeth annibynnol. | - Gallai darpariaeth weithredu yn annibynnol o fewn ei hawl ei hun. | - Ni fyddai gan ddarpariaeth yr un lefelau o fynediad i gefnogaeth arbenigol.<br>- Gallai brofi'n gostus o ran recriwtio staff i reoli darpariaeth yn ei hawl ei hun. | Nid oes yna ddigon o allu rheoli ac arweinyddiaeth neu arbenigedd o fewn y ddarpariaeth bresennol i'r dewis hwn gael ei ystyried a byddai yna gost sylweddol i recriwtio staff priodol. |

**Beth fydd y cynnig a ffefrir yn ei gyflawni?**

Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig yn darparu arbenigedd a chefnogaeth i blant a staff yng Nghanolfan Enfys i ateb eu hanghenion yn well.

## RHAN D - EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG

### D1. Effaith ar yr Amgylchedd Lleol

Ni fydd y cynnig i ddod â Chanolfan Enfys o dan reolaeth Ysgol Pen Coch yn cael llawer o effaith ar yr amgylchedd lleol.

Mae yna drefniadau teithio presennol ble mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yn naill ai Canolfan Enfys neu Ysgol Pen Coch ar fws mini.

Nid yw'r cynnig yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn capasiti yn y naill safle felly ni rhagwelir y bydd yna unrhyw effaith ar barcio yn yr un o'r safleoedd.

### D2: Effaith ar Dderbyniadau

Cyngor Sir y Fflint yw'r Awdurdod ar gyfer Ysgol Pen Coch a Chanolfan Enfys a bydd derbyn yn parhau i gael ei asesu o fewn proses Panel Cymedroli ADY Cyngor Sir y Fflint.

Yn unol â'r polisi hwn, mae swyddogion y cyngor yn gyfrifol am ddyrannu lleoedd yn seiliedig ar lefelau o angen a aseswyd. Bydd hyn yn parhau'r achos fel canlyniad y cynnig hwn.

### D3: Effaith ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n cyrraedd naill ai Canolfan Enfys neu Ysgol Pen Coch yn gwneud hynny ar fws mini a bydd hynny'n parhau'r achos o dan y cynnig hwn. Mae hyn yn golygu nad oes yna unrhyw effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.

### D4: Effaith ar Drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid i'r trefniadau trosglwyddo presennol i ddisgyblion mewn perthynas ag addysg uwchradd arbenigol.

### D5: Effaith ar Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ddarpariaeth bresennol yng Nghanolfan Enfys ac Ysgol Pen Coch yn ddarpariaeth arbenigol i fodloni anghenion plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sylweddol.

Bydd dod â Chanolfan Enfys o dan reolaeth Ysgol Pen Coch yn gwella ansawdd yr addysg a deilliannau dysgu ar gyfer y plant sy'n mynychu.

### D6: Effaith ar Drefniadau Llywodraethu

Bydd y trefniadau llywodraethu yn newid sy'n golygu y bydd cyfrifoldeb yn symud o'r Pwyllgor Rheoli ym Mhlas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion) i'r corff llywodraethu yn Ysgol Pen Coch.

### D7: Effaith ar Staffio

Byddai'r Pennaeth yn Ysgol Pen Coch yn rhedeg Canolfan Enfys o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth y tîm arweinyddiaeth presennol yn Ysgol Pen Coch a Chanolfan Enfys.

## D8: Effaith ar Ysgolion Eraill

Gan mai aildrefnu'r arweinyddiaeth a rheolaeth bresennol yng Nghanolfan Enfys yw'r cynnig, tybir mai effaith ddibwys y bydd hyn yn ei gael ar ysgolion cyfagos ac felly nid yw'r ddogfen hon yn cynnwys manylion ysgolion a effeithir arnynt.

## D9: Risgiau'r Prosiect

Mae rhestr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig ar gael isod:

| **Risgiau'r Prosiect** | |
|---|---|
| **Risgiau** | **Camau Lliniaru** |
| Mae Canolfan Enfys yn parhau o dan reolaeth Plas Derwen (Unedau Cyfeirio Disgyblion) os nad yw'r cynnig yn derbyn cymeradwyaeth. | Byddai cefnogaeth gynyddol yn cael ei darparu gan Ysgol Pen coch o dan drefniadau presennol tra mae'r ysgol yn parhau o dan reolaeth uniongyrchol Plas Derwen. |
| Mae'r pellter rhwng Ysgol Pen Coch a Chanolfan Enfys yn golygu ei bod yn anodd i'r ddarpariaeth arbenigol ddarparu cefnogaeth yn effeithiol. | Mae yna drefniadau eisoes ar waith ar gyfer Ysgol Pen Coch i gefnogi Canolfan Enfys a bydd y rhain yn cael eu datblygu os bydd y cynnig hwn yn llwyddiannus. Bydd adolygiad o arferion gwaith yn cael ei gynnal i sicrhau bod y strwythur priodol ar waith i ateb anghenion y plant tra'n sicrhau bod safonau cyfathrebu/monitro effeithiol yn cael eu cynnal. |

## D10: Asesiad o Effaith Integredig

Mae asesiad o'r effaith integredig wedi'i gynnal ar gyfer y cynnig hwn ac ar gael ar gais.

## D11: Effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg

Un o ganlyniadau allweddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yw cynyddu nifer y plant saith mlwydd oed sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fydd y cynnig hwn yn darparu lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Nid oes yna ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal gyfagos ar hyn o bryd a all gael eu heffeithio.

Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg. Felly cydnabyddir na fydd y cynnig hwn yn gwneud unrhyw gyfraniad at dargedau'r Cyngor mewn perthynas â Chymraeg 2050.

## D12: Effaith adeiladu

Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r adeilad yng Nghanolfan Enfys yn parhau o fewn y portffolio Addysg ac Ieuenctid.

## D13: Trefniadau Dros Dro

Ni fydd trefniadau dros dro yn cael eu gwneud yn ystod gweithredu'r cynnig. Bydd darparu'r cynnig yn sicrhau'r amhariad lleiaf posibl ar ddysgwyr.

## RHAN E - FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

### E1: Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Hoffai'r Cyngor glywed eich barn am gynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Enfys a symud y ddarpariaeth o reolaeth bresennol Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion) i fod o dan reolaeth Ysgol Pen Coch.

Bydd y cynnig yn arwain at gynyddu'r capasiti enwol yn Ysgol Pen Coch o 98 i 128 erbyn mis Mawrth 2025.

Mae eich barn chi'n bwysig.

Dywedwch wrthym ni beth ydych chi'n feddwl drwy lenwi'r holiadur a'i ddychwelyd i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion.

Fel arall, gallwch lenwi hwn ar-lein yn:

Dilynwch y ddolen hon ? neu e-bostiwch eich ymateb i 21stCenturySchools@flintshire.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ar **ddydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2024.**

Sylwch, ni fydd ymatebion negyddol i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau i'r cynnig, byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau anffafriol. Mae'n rhaid i chi aros tan y cyflwynir hysbysiad statudol i gyflwyno gwrthwynebiad.

1. **A ydych yn cefnogi'r cynnig i:**

Aildrefnu'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Enfys a'i symud o dan reolaeth bresennol Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion) i fod o dan reolaeth Ysgol Pen Coch yn cynyddu capasiti enwol Ysgol Pen Coch o 98 i 128 erbyn Mawrth 2025.

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Defnyddiwch y blwch isod i ddarparu sylwadau neu i egluro pa elfen o'r cynnig rydych chi'n ei chefnogi neu beidio.

| |
|---|
| |

**2. Beth yw eich cysylltiad/perthynas gydag Ysgol Pen Coch/Canolfan Enfys?**

Rwy'n riant/gofalwr disgybl yn yr ysgol ☐

Rwy'n ddarpar riant/gofalwr disgybl yn yr ysgol ☐

Rwy'n athro/aelod arall o staff yn yr ysgol ☐

Rwy'n llywodraethwr yn yr ysgol ☐

Rwy'n aelod o'r gymuned ☐

Arall ☐

Os hoffech chi dderbyn hysbysiad ynghylch cyhoeddiad yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfeiriad post yn y blwch isod.

| |
|---|
| |

**E2. Gwybodaeth Monitro Cydraddoldeb**

Er mwyn monitro cynwysoldeb ein gwaith ymgysylltu, gwerthfawrogem eich cydweithrediad i ddarparu'r wybodaeth a ofynnir amdani isod. Cedwir y wybodaeth yn gyfrinachol ac anhysbys, a bydd yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel ar ôl i ni gasglu'r wybodaeth.

**Mae darparu'r wybodaeth hon yn hollol wirfoddol.**

| | |
|---|---|
| **Nodwch eich dyddiad geni (DD/MM/BBBB):** | |

| **Beth yw eich rhyw:** | |
|---|---|
| Gwryw | |
| Benyw | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | |
| Arall: | |

| **Sut fyddech chi'n disgrifio eich cenedligrwydd:** | | | |
|---|---|---|---|
| Prydeinig | | Albanaidd | |
| Saesneg | | Cymraeg | |
| Gwyddelig | | Mae'n well gen i beidio â dweud | |
| Gwyddelig (Gogledd Iwerddon) | | Arall: | |

| **Sut fyddech chi'n disgrifio eich ethnigrwydd:** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | | Gwyn o Loegr | |
| Gwyn o Ogledd Iwerddon | | Gwyn o'r Alban | |
| Gwyn Cymreig | | Gwyn Gwyddelig | |
| Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | | Gwyn - Arall | |
| Prydeinig Cymysg – Gwyn / Du Caribïaidd | | Prydeinig Cymysg – Gwyn / Du Affricanaidd | |
| Prydeinig Cymysg - Gwyn / Asiaidd | | Prydeinig Cymysg - Unrhyw gefndir cymysg arall | |
| Prydeinig Du - Caribïaidd | | Prydeinig Du - Affricanaidd | |
| Prydeinig Du - Unrhyw gefndir du arall | | Asiaidd - Indiaidd | |
| Asiaidd -Bangladeshaidd | | Asiaidd - Pacistanaidd | |
| Asiaidd - Tsieineaidd | | Asiaidd - Arall | |
| Prydeinig arall - Arabaidd | | Mae'n well gen i beidio â dweud | |
| Arall: | | | |

| **Cyfeiriadedd Rhywiol: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych yn ystyried eich hun? (Gofynnir y cwestiwn hwn i unigolion dros 16 oed).** | | | |
|---|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | | Deurywiol | |
| Dyn Hoyw | | Mae'n well gen i beidio â dweud | |
| Menyw Hoyw / Lesbiad | | Arall: | |

| **Beth yw eich crefydd?** | | | |
|---|---|---|---|
| Cristion (pob enwad) | | Iddewig | |
| Bwdhydd | | Anffyddiwr | |
| Hindŵ | | Dim crefydd | |
| Mwslim | | Mae'n well gen i beidio â dweud | |
| Sikhiaeth | | Arall: | |

| **Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil gyda rhywun o'r un rhyw?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Na | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | | | |

| **Anabledd: Yn defnyddio'r diffiniad isod, ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?**<br>**Mae Adran 6(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan unigolyn anabledd os:**<br>**(a) Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a**<br>**(b) Bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydy | | Nac ydy | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | | | |

| **Cyfrifoldebau Gofalu: Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelod o'ch teulu, ffrind, cymydog neu i eraill oherwydd afiechyd / anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir; neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | | | |

| **Pa un yw eich iaith ddewisol?** | | | |
|---|---|---|---|
| Saesneg | | Cymraeg | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae’n well gen i beidio â dweud | | Arall (yn cynnwys Iaith Arwyddo Prydain) | |